**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda**
**Canolfan Hamdden Plas Ffrancon**
**Bethesda**
**Gwynedd**
**LL57 3DT**

**Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Cefnfaes Bethesda

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cefnfaes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Mr Lawrence Haydn Davies |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Juliet Davies |
| Nifer y lleoedd | 35 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 flwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 9 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9.00 a 14.45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/10/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14/01/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/02/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae bron pob un plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i gyfoethogi ymwybyddiaeth y plant o'u hardal leol

A2 Sicrhau bod arferion monitro, ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau arwain yn drylwyr a chyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn gwneud penderfyniadau deallus ynglyn â ble i fynd i chwarae a pha fwydydd i'w fwyta amser byrbryd. Yn ystod amser cylch, mae mwyafrif y plant yn trafod ac yn mynegi'u barn a'u hoffterau personol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n dda gydag oedolion a'u cyfoedion, er enghraifft wrth ofyn i'r ymarferwyr am weithgareddau ac wrth esbonio pa dasgau sydd o ddiddordeb mwyaf iddynt. Maent yn gwneud dewisiadau da ar hoff feysydd dysgu fel chwarae gyda'r tywod neu adeiladu nyth adar.

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, hapus ac yn gwybod y bydd eu teimladau yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae bron pob un yn wydn ac yn ymdopi hyd yn oed os ydynt yn ansicr. Maent yn dod yn ôl i chwarae yn syth ar ôl cael eu cysuro. Mae bron pob plentyn yn datblygu hoffter tuag at ymarferwyr yn hawdd oherwydd mae'r ymarferwyr yn eu hadnabod nhw'n dda ac yn rhoi gofal cyson a pharhaus iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi llunio perthnasoedd emosiynol cadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n meithrin hyder a hunan-barch cryf.

Mae bron pob plentyn yn cydweithredu ac yn chwarae'n effeithiol, er enghraifft wrth rannu offer toes a llestri. Maent yn gwrando'n dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at oedolion a chyfoedion, sydd yn cyfrannu at ethos o gydweithio gyda'i gilydd.

Mae bron pob un o'r plant yn cyfranogi yn eiddgar ac yn mwynhau dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda ac mae ychydig o'r plant yn dechrau dod yn ymwybodol o deimladau eraill. Enghraifft o hyn yw plentyn yn dangos caredigrwydd wrth rannu doli gyda phlentyn arall oedd yn ansicr. Mae rhan fwyaf y plant yn parchu eraill ac yn gofalu am gyfarpar ac adnoddau yn briodol wrth iddynt dacluso. Mae bron pob un yn cyd weithio gyda'r ymarferwyr yn dda iawn, er enghraifft wrth ymateb i gais i ddod at y bwrdd i fwyta byrbryd.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb cadarnhaol yn eu dysgu. Mae bron pob un yn dysgu medrau newydd wrth iddynt brofi amrywiaeth wych o gyfleoedd chwarae diddorol fel defnyddio chwyddwydrau yn y bwrdd darganfod. Maent yn llawn cyffro yn enwedig wrth chwarae tu allan neu gwneud crefft. Mae'r rhan fwyaf yn dangos cymhelliant da ac yn canolbwyntio'n bwrpasol yn ystod tasgau. Maent yn dyfalbarhau am gyfnod priodol i gwblhau gweithgareddau fel darllen llyfr, chwarae gyda thywod glas a phiws neu siarad ar y ffôn.

Mae rhan fwyaf y plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn dda, er enghraifft pan yn datrys heriau fel mesur taldra. Mae bron pob un yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth helpu eu hunain i'r byrbryd; tywallt eu diodydd a cheisio gwisgo'u cotiau

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar esboniadau a chyfarwyddiadau'n astud ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn adeiladu nythod clyd i adar heb anogaeth ymarferwyr ac yn ymuno yn frwdfrydig â chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Maent yn ymateb yn eglur i holi'r ymarferwyr ac yn ystyried anghenion eraill yn synhwyrol wrth gydweithio'n ddiwyd i osod llestri ar fyrddau'r caffi. Maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ddeallus, er enghraifft wrth iddynt ddisgrifio edrychiad y mochyn blin.

Mae llawer o blant yn trafod cynnwys llyfrau yn effeithiol. Maent yn ymhelaethu'n frwdfrydig am helyntion cymeriadau, fel tedi sydd ar goll yn yr eira, gan gynnig syniadau i'w helpu. Yn ogystal, maent yn nodi'n ddeallus mai'r blaidd yw'r dihyryn ym mywydau'r tri mochyn bach. Mae llawer yn gwneud marciau'n bwrpasol gydag amryw gyfrwng ac yn ymfalchïo yn eu profiadau ysgrifennu cynnar. Maent yn defnyddio creonau a phaent yn hyderus ac yn nodi archebion o'r caffi yn gydwybodol ar lyfryn. Mae ychydig yn esbonio diben eu hysgrifennu cynnar yn dda ac yn adnabod eu henwau ac enwau eraill yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol raenus yn y cyd-destunau perthnasol. Maent yn cyfrif rhifau i bump yn dda ac mae ychydig yn rhifo i ddeg a mwy yn gywir. Maent yn cymharu a disgrifio nodweddion siapiau yn bwrpasol ac maent yn grwpio anifeiliaid yn ddeallus yn ôl eu maint. Mae llawer yn dewis offer a deunyddiau addas i ddatrys problemau mathemategol yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn adeiladu blociau yn ofalus i gyfatebu â'u taldra. Mae'r rhan fwyaf yn cymharu maint a phwysau gwrthrychau yn effeithiol, gan nodi'r rhai 'llai', 'mwy', 'trwm' ac 'ysgafn'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg yn fedrus. Maent yn rheoli dyfeisiau electronig yn hyderus. Mae eu defnydd o raglenni addysgol, apiau a chaledwedd yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol da wrth ddringo a llithro ar gyfarpar anturus a dawnsio'n frwdfrydig. Maent yn datblygu medrau creadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn gweithredu'n annibynnol wrth beintio adar wrth isl a thynnu lluniau o'u teulu gyda sialc.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth cadarn o'u polisi amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn gweithredu polisiau iechyd a diogelwch gan gynnwys hylendid bwyd a darpariaeth ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o hylendid wrth baratoi bwyd, newid clytiau ac atgoffa plant i olchi dwylo. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd arbennig o dda i'r plant

fyw'n iach ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y ceg trwy annog y plant i frwsio dannedd yn ddyddiol. Hyrwyddir bwyta ac yfed iach yn dda a chynigir amrywiaeth wych o ffrwythau i'r plant. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant dderbyn cyfrifoldebau penodol yn ystod amser byrbryd. Mae hyn yn creu annibyniaeth ymysg y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau da iawn ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n heini ac yn darparu gweithgareddau corfforol yn rheolaidd.

Mae gan yr ymarferwyr ddulliau da i feithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch, er enghraifft drwy wobrwyo plant gyda sticer am ymddygiad da a chyfraniadau i weithgareddau. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol a phositif sydd yn dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn effeithiol. Maent yn creu awyrgylch hapus a chadarn lle mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion. O ganlyniad, mae'r plant yn gofyn yn hyderus am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas hyfryd gyda'r plant ac maent yn sensitif i'w hanghenion. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffter unigol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Maent yn trin pob plentyn gydag urddas a pharch a maent yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu. Darperir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaladwyedd drwy ailgylchu papur, cardfwrdd a phlastig. Mae systemau cadarn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allweddol a rhieni er mwyn lles y plentyn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm difyr sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu yn ofalus i gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant ac sy'n lwyddo i greu dysgwyr annibynnol. Mae'r cynllunio deallus yn effeithio'n dda ar wella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae'r gweithgareddau llwyddiannus yn cynnwys heriau i ymateb ar lafar i gynnwys llyfrau, i rifo'n gywir wrth neidio o un teiar i'r llall ac i ddefnyddio offer TGCh fel bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn dda. Maent yn cymell y plant i gydweithio a dysgu'n ymarferol, er enghraifft trwy gyfleoedd cyson i daflu peli at dargedau a pheintio adar trwy gymysgu paent llachar. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n rhagorol ar wella Cymraeg y plant trwy fodelu geiriau ac ailadrodd ymadroddion heriol. Mae'r arferion gwych hyn yn herio pob un plentyn i siarad ac ymateb yn rheolaidd yn y Gymraeg ac i gyflawni'n dda ar lafar.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio'r plant yn gyson. Maent yn holi'n fedrus, sy'n effeithio'n gadarn ar fedrau'r plant, fel trafod bywydau creaduriaid yn oerfel yr Arctig. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd oedolyn a thasgau annibynnol y plant. Maent

yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu trwy chwarae ymarferol. Enghreifftiau da o hyn yw dringo ar offer anturus a choginio'n frwd yn y gegin fwd.

Mae'r gweithdrefnau i asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn asesu'n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau yn drylwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, fel astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a chwarae â doliau o wahanol ddiwylliannau. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chystadlu mewn eisteddfodau lleol. Gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr fel ffermwr â dafad i greu ymwybyddiaeth gadarn ymhlith y plant o bobl eu cymuned. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld â'r pentref yn rheolaidd, sy'n cyfyngu dealltwriaeth y plant o'u hardal leol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant. Yn ogystal, maent yn darparu llyfryn defnyddiol ac adroddiad cynnil iddynt ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, sy'n adlewyrchu cyflawniad eu plant yn dda.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn effeithio'n fuddiol ar ddiogelwch a lles plant. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau'n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn. Ceir ymarferion tân rheolaidd ac mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o'r trefniadau i'w dilyn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod risgiau diangen i blant yn cael eu rheoli neu'u dileu'n effeithiol.

Mae plant yn derbyn gofal mewn adeilad hyfryd, ddelfrydol sydd yn cael ei drefnu yn ddeallus i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu. Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad a dyfalbarhad da i gynnal a datblygu'r amgylchedd dysgu'n rheolaidd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn dathlu llwyddiannau'r plant trwy osod arddangosfeydd lliwgar o waith y plant. Mae'r ymarferwyr yn ddychmygus wrth gynllunio'r amgylchedd, fel defnyddio tywod pinc a phiws a chreu bwrdd darganfod gyda chwyddwydrau a deunyddiau gwahanol. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol y tu mewn a thu allan. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r ddarpariaeth allanol ac yn cynllunio cyfleoedd chwarae ardderchog i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu medrau newydd wrth allu cydbwyso, profi deunyddiau gwahanol yn y cegin fwd a dringo ar y cyfarpar.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau sydd ar gael i'r plant, yn briodol iawn ac yn addas i'w hanghenion yn cynnwys anghenion ychwanegol. Ceir amrywiaeth da o adnoddau ymhob ardal, i gyd o fewn cyrraedd rhwydd y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn lân ac yn cael eu

cynnal a chadw yn ôl egwyddorion rheoli haint. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y teganau a deunyddiau chwarae yn hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi sefydlu arferion trwyadl i weithdrefnau'r lleoliad. Mae hi'n arwain yn dda ac yn cyfeirio gwaith dyddiol a hir dymor y lleoliad yn llwyddiannus. Mae ffocws clir ganddi ar brofiadau cyson a diddorol i'r plant, sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithio ar eu deilliannau'n bwrpasol.

Mae'r cynllunio o brofiadau ysgogol, y gofal diwyd a'r addysgu cadarn yn canolbwyntio ar fodloni anghenion y plant yn effeithiol. O ganlyniad i barodrwydd yr arweinydd i wella, mae'r holl ymarferwyr yn ymroi i'w gwaith yn llwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain ac maent yn cymell y plant i ddysgu'n gyson, mewn ffyrdd cefnogol a synhwyrol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso sefydlog ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ganddi ystyriaeth gadarn o farnau'r ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Gwneir hyn trwy drafodaethau ystyrlon â phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i ymateb i anghenion y plant yn ddeallus. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar wella'r agweddau sydd angen eu datblygu. Er enghraifft, maent wedi cyd-gynllunio trefniadau gofalus i dderbyn plant yn ddiogel i'r ystafell o gyntedd y ganolfan hamdden.

Mae'r person cofrestredig ac aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol. Maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinydd a swyddogion o asiantaethau allanol. Mae gan y pwyllgor drefniadau addas i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Maent yn dilysu penderfyniadau'r arweinydd yn briodol ar ôl iddi ddefnyddio gweithdrefnau meintiol i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro, ar gyfer goruchwylio a gwerthuso'r gweithdrefnau arwain, yn gyson a digon sefydlog.

Mae'r arweinydd yn sicrhau dyraniad da o adnoddau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hi'n arwain tîm o ymarferwyr cymwys yn frwdfrydig ac mae hi'n sicrhau bod hyfforddiant pwrpasol ar gael i ddatblygu medrau unigolion yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn sicrhau bod y gwariant o gyllid yn effeithio'n fwriadus ar y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o gyfarpar mathemategol a chynllun i wella medrau llafar y plant.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau da. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol yn bodoli gyda'r ysgolion lleol i gefnogi'r plant wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn gwneud eu hunain ar gael i rieni a gofalwyr ac yn cyfathrebu'n agored gyda hwy, sydd yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu ateb.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2019